CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL
ANEURIN BEVAN

CRYNODEB O GANLYNIADAU'R AROLWG GOFAL NYRSIO SYLFAENOL

Ym mis Hydref y llynedd fe wnaethom wahodd sylwadau ar y gofal nyrsio sylfaenol mewn ysbytai lleol o dan nifer o benawdau trwy gyfrwng arolwg ar ein gwefan. Roedd yr 13 a ymatebodd rhwng Hydref a Ionawr yn feirniadol ar y cyfan – er bod un ymatebydd wedi canmol y nyrsys oedd yn gofalu am ei thad ac amlygodd un arall 'brinder staff cyfredol' fel ffynhonnell y broblem.

a) <u>Cefnogaeth i gleifion amser bwyd:</u>

Roedd wyth o'r ymatebwyr yn credu nad oedd digon o gefnogaeth i gleifion hŷn, bregus adeg prydau bwyd. Soniodd dau am fwyd yn cael ei adael allan o gyrraedd cleifion a nododd un yr anawsterau yr oedd cleifion dryslyd yn eu dioddef oherwydd 'bod angen eu hatgoffa i fwyta eu bwyd'. Dywedodd un arall, 'pa gefnogaeth? Cafodd fy nhad ei adael am ddyddiau heb neb i'w helpu er ei fod wedi torri ei fraich ac yn methu â bwydo ei hun'. Dywedodd un arall bod 'bwyd yn cael ei adael i oeri gan nad oedd staff yn gallu gadael eu dyletswyddau eraill.' 'Un llwy ar gyfer cawl a phwdin'. Soniodd un am 'gymysgedd o agweddau a chymorth gan y staff yn Ysbyty Frenhinol Gwent'. Roedd un yn gweld potensial mewn cefnogaeth gan wirfoddolwyr hyfforddedig fel 'Robiniaid' Age Concern. Roedd un ymatebydd yn bryderus ynglŷn ag arwydd 'dim trwy'r geg' uwchben gwely claf am 24 awr yn dilyn pelydr-X. Dywedodd un ymatebydd bod 'dannedd a sbectol cleifion yn cael eu colli'n aml ar wardiau ac felly dydyn nhw ddim yn gallu bwyta'n iawn na darllen bwydlenni'.

b) <u>Anghenion toiled y rhai sydd llai symudol:</u>

Roedd un ymatebydd yn credu bod yr agwedd hon yn iawn. Roedd 7 o'r 10 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn wedi gweld enghreifftiau o gleifion yn gorfod aros yn rhy hir. Dywedodd un, 'roedd ceisiadau cleifion yn gaeth i'w gwelyau yn cael eu hanwybyddu – gwely gwlyb a cherydd wedyn i'r claf'. Dywedodd un arall, 'cleifion oedrannus yn galw am gyfnodau hir am gymorth gyda phaniau gwely – hefyd yn ymwybodol bod cleifion yn cael padiau i'w defnyddio ar adegau prysur'. Soniodd un am 'glychau galw yn cael eu gosod allan o gyrraedd cleifion'. Dywedodd un claf eu bod wedi cael gwybodaeth 'nad oedd modd eu trin tra roedd bwyd o gwmpas – yn erbyn rheolau glanweithdra'. Ni chafodd u claf help 'er ei fod yn teimlo'n chwil ac ar faglau!'
Roedd tad-cu yn dioddef o dementia yn yr ysbyty yn cael ei ystyried yn 'glaf anodd yn hytrach na chlaf dryslyd'.

c) <u>Cynnal Urddas:</u>

Derbyniwyd 11 sylw dan y pennawd hwn – roedd tri yn cyfeirio at sylw annigonol i gleifion yn y gwely, dau yn nod nad oedd llenni wedi'u tynnu o gwmpas claf gwrywaidd yn defnyddio potel pasio dŵr. Nododd un nad oedd unrhyw ymdrech wedi'i wneud i ymolchi claf nac i ddiosg gŵn

dilyn llawdriniaeth. Dywedodd un bod nyrsys yn taflu dillad brwnt ar y llawr gan ddangos yn glir pwy oedd â problem gallu dal dŵr. Dywedodd un ymatebydd "heb fy ymweliadau dyddiol ni fyddai (claf) wedi cael cymorth i siafio na hyd yn oed brwsio ei wallt".

d) <u>Cyfathrebu gyda Pherthnasau a Theuluoedd:</u>

Derbyniwyd 12 sylw ar gyfer y cwestiwn hwn, roedd 2 yn gadarnhaol, 2 yn amwys ac 8 yn negyddol. Soniodd un am "asesiadau nyrsio annigonol, dogfennaeth nyrsio gwael". Dywedodd un "nid oes meddygon ar y ward a dydy'r nyrsys yn dweud dim wrthych" – un o ddau sylw tebyg. Un arall – "roeddwn yn gorfod gofyn a gofyn am wybodaeth sydd yn arbennig o bwysig i berthnasau claf gyda dementia sydd yn methu dweud wrthych eu hunain".

<u>e) Cynnal Cyfrinachedd wrth Ddelio gyda Gwybodaeth Bersonol:</u>

Cafwyd llai o ymatebion i'r cwestiwn hwn; cyfanswm o 7. Doedd 3 ymatebydd ddim yn gweld unrhyw broblem, amlygodd un anawsterau ymarferol "does dim lle i drafod problemau ac eithrio yng ngorsaf y nyrsys" ac roedd tri yn negyddol. Dywedodd un, "llawer o gofnodion cleifion wedi'u gadael yn y coridor – gall unrhyw un eu darllen" ac wedi clywed "nyrsys yn trafod cleifion eraill o fewn clyw ymwelwyr".

f) <u>Lleddfu Poen yn Brydlon ac Effeithiol:</u>

Derbyniwyd 10 sylw – 3 yn gadarnhaol a 7 yn nodi pryderon "Cafodd fy nghais am feddyginiaeth i leddfu poen ei anwybyddu bum gwaith"
"Weithiau roedd fy mherthynas yn amlwg mewn poen pan oeddwn yn ymweld ac roedd rhaid i mi ofyn am feddyginiaeth lleddfu poen ar ei gyfer." "Er gwaethaf y nodiadau yn dweud bod angen meddyginiaeth lleddfu poen yn ôl y galw, dim ond pan oedd yn gyfleus i'r nyrsys y byddai'n cael ei roi".
"Bob amser, mewn munud – byth pan rydych ei angen"

g) <u>Sylwadau Ychwanegol:</u>

Soniodd un ymatebydd am "ddiffyg diddordeb, empathi na gofal sylfaenol .. profiad brawychus a thrawmatig a lesteiriodd fy adferiad" Dywedodd un arall "Byddai'n well gennyf farw na mynd yn ôl i Ysbyty Frenhinol Gwent""

Mr David Kenny
Dirprwy Brif Swyddog (Ymgysylltiad Cyhoeddus)